## SCHEDULE 1

Article 3

## WELSH VERSIONS OF PRESCRIBED FORMS OR FORMS OF WORDS

*Form 1 – Form of certificate of employment (Welsh)*

**Tystysgrif Cyflogaeth**

**Refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd**

Dyddiad y refferendwm *[diwrnod] [dyddiad] [mis] [blwyddyn]*

Ardal bleidleisio *[nodwch enw'r ardal]*

Mae gan yr unigolyn a enwir isod hawl i bleidleisio mewn unrhyw orsaf bleidleisio yn yr ardal bleidleisio uchod ar ôl cyflwyno ac ildio'r dystysgrif hon i'r Swyddog Llywyddu.

Yr wyf yn datgan na ellir disgwyl yn rhesymol i ______________________________________ (enw'r etholwr)

sef rhif * _________________________________ ar y gofrestr o etholwyr ar gyfer yr ardal bleidleisio a nodir uchod, fynd i'r orsaf bleidleisio a glustnodwyd iddynt yn y refferendwm hwn oherwydd ei gyflogaeth/chyflogaeth ar y dyddiad uchod at ddiben sy'n gysylltiedig â'r refferendwm hwn:

– fel cwnstabl**
– fel Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu**
– gennyf i (Mae hyn yn berthnasol i staff y Swyddog Cyfrif yn unig)**

Llofnod____________________________________ Swyddog Cyfrif/Swyddog Heddlu *(Arolygydd neu uwch)***

Dyddiad __________________

* Mae rhif yr etholwr ar y cerdyn pleidleisio a anfonwyd atynt yn fuan ar ôl cyhoeddi'r refferendwm, neu gallwch ei gadarnhau drwy gysylltu â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.

**Yr unigolyn sy'n cwblhau'r ffurflen i ddileu pa un bynnag sy'n amherthnasol.

Form of words 2 – Questions to be put to voters (Welsh)

## Cwestiynau i bleidleiswyr

| *Unigolyn sy'n gwneud cais am bapur pleidleisio* | | *Cwestiynau* |
|---|---|---|
| | | |
| 1 Unigolyn sy'n gwneud cais fel etholwr | (a) | "Ai chi yw'r unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar y gofrestr etholwyr ganlynol (*darllenwch y cofnod cyfan o'r gofrestr*)?" [R] |
| | (b) | "A ydych chi eisoes wedi pleidleisio yn y refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd, yma neu rywle arall, ac eithrio fel dirprwy i unigolyn arall?" [R] |
| | | |
| 2 Unigolyn sy'n gwneud cais fel dirprwy | (a) | "Ai chi yw'r unigolyn y mae ei enw yn ymddangos fel A B ar y rhestr o ddirprwyon ar gyfer y refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd, fel unigolyn sydd â hawl i bleidleisio fel dirprwy ar ran C D?" [R] |
| | (b) | "A ydych chi eisoes wedi pleidleisio yn y refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd, yma neu rywle arall fel dirprwy ar gyfer C D?" [R] |
| | (c) | "A ydych chi'n briod, partner sifil, rhiant, nain/taid/mam-gu/tad-cu, brawd/chwaer, plentyn neu'n ŵyr/wyres C D?" [R] |
| | | |
| 3 Unigolyn sy'n gwneud cais yng Nghymru a Lloegr neu'r Alban fel dirprwy i etholwr â chofnod dienw (yn hytrach na'r cwestiynau yng nghofnod 2) | (a) | "Ai chi yw'r unigolyn sydd â hawl i bleidleisio fel dirprwy ar ran yr etholwr y mae eu rhif ar y gofrestr etholwyr fel a ganlyn (*darllenwch y rhif oddi ar y gofrestr*)?" [R] |
| | (b) | "A ydych chi eisoes wedi pleidleisio yn y refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd yma neu rywle arall, fel dirprwy ar ran yr etholwr y mae eu rhif ar y gofrestr etholwyr fel a ganlyn (*darllenwch y rhif oddi ar y gofrestr*)?" [R] |
| | (c) | "A ydych chi'n briod, partner sifil, rhiant, nain/taid/mam-gu/tad-cu, brawd/chwaer, plentyn neu'n ŵyr/wyres i'r unigolyn y mae eu rhif ar y gofrestr etholwyr fel a |

| | |
|---|---|
| | ganlyn (*darllenwch y rhif oddi ar y gofrestr*)?" [R] |
| | |
| 4 Unigolyn sy'n gwneud cais fel dirprwy os nad yw'r cwestiwn yng nghofnod 2(c) neu 3(c) (os yw'n berthnasol) yn cael ei ateb yn gadarnhaol | "A ydych chi eisoes wedi pleidleisio yn y refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd ar ran dau unigolyn nad ydych yn briod, partner sifil, rhiant, nain/taid/mam-gu/tad-cu, brawd/chwaer, plentyn neu'n ŵyr/wyres iddynt?" [R] |
| | |
| 5 Unigolyn sy'n gwneud cais fel etholwr y mae cofnod ar eu cyfer yn y rhestr o bleidleiswyr sydd â phleidlais bost | (a) "A wnaethoch chi wneud cais i bleidleisio drwy'r post?"<br>(b) "Pam nad ydych wedi pleidleisio drwy'r post?" |
| | |
| 6 Unigolyn sy'n gwneud cais fel dirprwy sy'n cael ei enwi ar y rhestr o bleidleiswyr sydd â phleidlais bost drwy ddirprwy | (a) A wnaethoch chi wneud cais i bleidleisio drwy'r post drwy ddirprwy?"<br>(b) "Pam nad ydych wedi pleidleisio drwy'r post drwy ddirprwy?" |

*Form 3 - Form of declaration made by the companion of a voter or proxy with disabilities (Welsh)*

| | |
|---|---|
| **Datganiad ar gyfer cydymaith pleidleisiwr ag anableddau** | |
| **Refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd** | |
| **Ardal bleidleisio:** *[nodwch yr ardal bleidleisio]* | |
| Dyddiad y refferendwm *[diwrnod] [dyddiad] [mis] [blwyddyn]* | |
| Mae pleidleisiwr ag anableddau yn bleidleisiwr sydd wedi gwneud datganiad bod ei ddallineb ef / dallineb hi neu anabledd arall, neu eu hanallu i ddarllen, yn golygu na allant bleidleisio yn y refferendwm hwn heb gymorth.<br>Yn y ffurflen hon, ystyr "pleidleisiwr" yw unigolyn sy'n bwrw'r bleidlais yn y refferendwm ac mae'n cynnwys unigolyn sy'n pleidleisio fel dirprwy. | |
| **Rhan 1 I'w gwblhau gan gydymaith y pleidleisiwr** | |
| Enw'r Cydymaith | |
| Cyfeiriad y Cydymaith | |
| Enw'r pleidleisiwr | |
| [*I'w ddefnyddio dim ond os yw'r pleidleisiwr anabl yn gweithredu fel dirprwy*]<br>Mae'r pleidleisiwr yn gweithredu fel dirprwy i: | |
| Rhif yr Etholwr<br>[*Os yw'r pleidleisiwr anabl yn gweithredu fel dirprwy, dyma rif yr unigolyn y mae'r pleidleisiwr yn gweithredu ar eu rhan*] | |
| **Gofynnwyd i mi gynorthwyo'r pleidleisiwr a enwir uchod i gofnodi eu pleidlais yn y refferendwm hwn. Yr wyf yn datgan:**<br>**(1)**<br>• Mae gennyf hawl i bleidleisio fel pleidleisiwr yn y refferendwm hwn<br>**neu**<br>• Yr wyf yn *briod/*partner sifil/*rhiant/*brawd/*chwaer/*plentyn i'r pleidleisiwr sydd ag anableddau a fy mod yn 18 oed neu'n hŷn<br>**Dilëwch pa bynnag un sy'n amherthnasol*<br>**AC**<br>**(2)**<br>• Nid wyf wedi cynorthwyo mwy nac un pleidleisiwr ag anableddau yn y refferendwm hwn.<br>Os wyf wedi cynorthwyo un pleidleisiwr arall, eu henw a'u cyfeiriad yw: | |
| [*Cwblhewch os yw'n briodol*] Enw a chyfeiriad yr unigolyn arall a gynorthwywyd | |

*Back of declaration*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **NODER – Mae'n drosedd cyfathrebu unrhyw wybodaeth o ran sut mae'r pleidleisiwr yn bwriadu pleidleisio neu wedi pleidleisio gydag unrhyw unigolyn arall.** | | | |
| Llofnod y Cydymaith | | Dyddiad | |
| **Rhan 2 I'w gwblhau gan y Swyddog Llywyddu** | | | |
| Yr wyf i, sydd wedi llofnodi isod, sef y Swyddog Llywyddu ar gyfer: | | | |
| Gorsaf Bleidleisio | | Ardal bleidleisio | |
| Yn tystio drwy hyn bod y datganiad uchod wedi'i lofnodi yn fy mhresenoldeb. | | Llofnod y Swyddog Llywyddu | |
| Dyddiad | | Amser (union) | |